Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 2 Hydref 2020** am 10.20am trwy fideo gynadledda.

**Presennol**
Mr Jim Barclay
Ms Ebony Banks
Mrs Laura Gough (*o eitem 20.08 ymlaen)*
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mrs Claire Homard
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Mr David Sprake
Mr David Subacchi
Ms Chloe Williams

**Swyddogion:**
Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd)*
Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Mrs Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*

**Ymddiheuriadau:**
Mr Paul Barlow
Mr Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)

| | | |
|---|---|---|
| **20.01** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | |
| **20.02** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni ddatganwyd unrhyw wrthdrawiad buddiannau o ran unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **20.03** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad fod Mr Jason Davies wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Mr Davies i ddiolch iddo am dynnu sylw at y newid yn ei amgylchiadau ac am ei gyfraniad i'r Bwrdd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.04** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2020 yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod hwnnw. | |

| | | |
|---|---|---|
| **20.05** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.06** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Fersiwn derfynol Adroddiad Effaith yr Undeb Myfyrwyr 2019/20<br>(ii) Ymateb yr Is-Ganghellor i'r Adroddiad Effaith.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.06.01 Diweddariad gan yr Is-Ganghellor**<br>Adroddodd yr Is-Ganghellor am gyfarfod wedi'i drefnu gan Brif Weinidog Cymru ar 1 Hydref. Roedd y rhai'n bresennol yn cynnwys Gweinidogion Cymru, Is-Gangellorion prifysgolion Cymru, Prifysgolion Cymru, yr Undeb Prifysgolion a Cholegau, Arweinyddion Awdurdodau Lleol a chynrychiolwyr yr Heddlu a'r sector Iechyd. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod sut roedd prifysgolion yn rheoli myfyrwyr newydd a myfyrwyr yn parhau eu hastudiaethau yn dychwelyd i'r campws. Cafwyd cytundeb cyffredinol fod cynlluniau yn eu lle gan brifysgolion Cymru ar gyfer dychwelyd i'r campws yn ddiogel a'u bod yn briodol a'u bod i gyd yn ymgysylltu'n dda gyda'u cymunedau lleol. Cytunwyd ar y cyd i ddarparu profiad ansawdd da i fyfyrwyr, gyda chymorth cyllid £27miliwn gan CCAUC.<br><br>Roedd heriau o ran argaeledd cyfleusterau profion Covid-19 yn agos at gampysau prifysgol ac oedi cyn derbyn canlyniadau profion. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i hwyluso unedau profion symudol yn agos at bob prifysgol. Roedd y galw am gymorth iechyd meddwl yn uchel ac yn fwy na'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am gyllid caledi ariannol. Byddai'r gost i brifysgolion aildrefnu eu seilweithiau digidol yn uchel. Roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau wedi mynegi pryderon yn genedlaethol ynghylch bygythiad i swyddi.<br><br>Roedd yn debygol y byddai cais yn mynd i Grŵp Canllawiau Addysg Uwch Llywodraeth Cymru i ymdrin â rhai o'r pryderon a godwyd yn y cyfarfod, fel rhan o adolygu'r canllawiau i brifysgolion, y byddai angen eu diweddaru yn dilyn mesurau coronafeirws newydd a gyflwynwyd ar draws Cymru.<br><br>Nododd y Bwrdd fod llesiant meddwl myfyrwyr a staff yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol. Roedd y Brifysgol yn arwain prosiect presgripsiynu cymdeithasol wedi'i gyllido gan CCAUC mewn cydweithrediad gyda Phrifysgol De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Coleg Cambria, yr Undeb Myfyrwyr a phartneriaid lleol eraill. Sefydlwyd bwrdd prosiect ac adroddwyd mai canlyniad yr ymchwil a wnaed ymhlith staff a myfyrwyr cyn y cyfnod clo coronafeirws oedd mai technoleg a bywyd teuluol gartref oedd y meysydd yn peri pryder. Byddai'r prosiect yn arwain at ddatblygu Canolfan Iechyd a Llesiant Meddwl ac roedd gweithdai'n cael eu trefnu gyda myfyrwyr i benderfynu sut beth fyddai'r 'Ganolfan' hon. Roedd meddalwedd presgripsiynu cymdeithasol 'Elemental' yn cael ei gyflwyno hefyd fel platfform i fyfyrwyr gael mynediad i wasanaethau cymorth, storio gwaith achos a darparu dulliau gwerthuso. Defnyddir y meddalwedd hwn yn y sector gofal iechyd a dyma'r tro cyntaf y byddai'n cael ei ddefnyddio mewn prifysgol.<br><br>Roedd yr Undeb Myfyrwyr yn parhau i weithio'n agos gyda'r Brifysgol ar y prosiect hwn, er mai eu prif flaenoriaeth ar hyn o bryd yw monitro iechyd a llesiant myfyrwyr yn ystod y sefyllfa coronafeirws. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **20.06.02 Ymateb i Adroddiad Effaith yr Undeb Myfyrwyr 2019/20**<br>Roedd y Bwrdd Academaidd wedi cymeradwyo'r Adroddiad Effaith yn ei gyfarfod ar 8 Medi, gan nodi ei fod yn adroddiad proffesiynol wedi'i seilio ar dystiolaeth. Ar sail yr adroddiad awgrymwyd efallai y byddai'r swyddogion sabothol yn dymuno bod yn fwy rhagweithiol yn gofyn am eitemau agenda a darparu papurau, er enghraifft, i Fwrdd yr Is-Ganghellor neu'r Bwrdd Academaidd, o ran eitemau a fyddai'n cefnogi cyflawni amcanion strategol yr Undeb Myfyrwyr. Byddai'r Is-Ganghellor yn trafod hyn yn fanylach yn ei chyfarfod gyda'r Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.07** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad a thynnu sylw at y gweithgareddau i groesawu myfyrwyr newydd a'r rhai'n dychwelyd, yn cynnwys eu gwaith gyda busnesau lleol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn sut roedd y myfyrwyr yn ymdrin â'r heriau cyfredol dywedwyd mai prif flaenoriaeth yr Undeb Myfyrwyr yw cyfathrebu, codi pryderon trwy'r Grŵp Cynghori Myfyrwyr a datblygu Cwestiynau Cyffredin. Ystyriwyd fod y Gronfa Mynediad at Ddysgu yn gyfle rhagorol i hwyluso dysgu hygyrch.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.08** | **Rhagfynegiad alldro ariannol 2019/20** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad rhagfynegiad alldro ariannol 2019/20.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y gwaith a'r ffactorau a oedd wedi arwain at yr alldro a gyflwynwyd. Gwnaed rhagor o waith ers cyhoeddi'r adroddiad dechreuol a'i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, gyda rhai materion wedi'u hasesu fel rhai mwy priodol i'w cynnwys yn 2020/21. Y sefyllfa wedi'i diweddaru oedd rhagfynegiad diwygiedig o warged gweithredu £750k a gwarged net £709k. Sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £5.8m yn erbyn cyllideb o £5.3m gyda'r effaith arian parod cadarnhaol yn ymwneud yn bennaf â gwaredu'r tir dros ben yn Ffordd yr Wyddgrug. Yn sgîl sefyllfa warged am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, er nad oedd y gwarged yn ormodol, gobeithiwyd y byddai rhanddeiliaid ariannol yn edrych ar hyn yn gadarnhaol. Roedd y sefyllfa'n parhau'n ddarostyngedig i archwiliad allanol.<br><br>Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi trafod gyda'r archwilwyr allanol eu proses ar gyfer cadarnhau busnes gweithredol ac roedd yn bosibl y gallai llofnodi'r datganiadau ariannol gael ei oedi er mwyn i'r holl faterion yn ymwneud â busnes gweithredol gael eu cynnwys yn eu barn derfynol.<br><br>Gallai ailgyllido benthyciad AIB a oedd i fod i orffen yn Awst 2020 fod yn 'fater peri pryder' i'r archwilwyr os na ellid ailgyllido'r benthyciad yn y cyfnod amser ar gyfer penderfynu ar fusnes gweithredol. Fodd bynnag, roedd y 'Cais am Gynigion' wedi'i gyhoeddi yn awr a derbyniwyd rhai galwadau dechreuol gan fenthycwyr. Roedd CCAUC wedi ailgyhoeddi eu Cyfarwyddyd Cyfrifon 2019/20 a oedd yn cynnwys dyddiadau cyflwyno estyniedig ar gyfer y datganiadau ariannol yn cydnabod y | |

| | | |
|---|---|---|
| | potensial y byddai angen i brifysgolion wneud gwaith ychwanegol gyda'u harchwilwyr ynghylch materion busnes gweithredol.<br><br>Er nad oedd yr adolygiad cyllideb ffurfiol wedi'i gwblhau eto, roedd y dangosyddion cynnar yn awgrymu y byddai recriwtio is na'r targed mewn rhai meysydd yn cael ei liniaru gan recriwtio uwch mewn meysydd eraill; ac y gellid parhau i gyflawni cyllideb warged yn 2020/21.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pa rannau o'r Brifysgol sy'n cynhyrchu gwared nodwyd yn fras mai incwm ffioedd dysgu israddedigion o'r Deyrnas Unedig a thramor oedd yn parhau i fod y brif ffynhonnell incwm. Roedd WGUonline yn cynhyrchu llai o incwm oherwydd bod partner yn ymwneud â'r ddarpariaeth, ond yn gyffredinol roedd yr holl weithgareddau'n cynhyrchu gwarged. Roedd rhai meysydd ymchwil yn mantoli'r gyllideb, ond roedd y meysydd hyn yn cael eu hannog er mwyn cynyddu proffil ymchwil y Brifysgol.<br><br>Gwnaeth Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid sylwadau ar yr adroddiad cadarnhaol mewn blwyddyn heriol ac ailadrodd ynghylch yr oedi potensial cyn llofnodi'r cyfrifon terfynol er mwyn galluogi'r archwilwyr i ystyried y mater busnes gweithredol yn drwyadl.<br><br>Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'i Dîm Cyllid am eu gwaith yn cefnogi cyfadrannau ac adrannau i reoli eu costau; a diolchwyd i'r Is-Ganghellor am fynd i'r afael â mater y credydau rhan amser gyda CCAUC.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.09** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad diweddariad Campws 2025.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad a diweddarodd yr aelodau ynghylch nifer o faterion. Roedd y cytundeb cyfyngu gydag Edwards Homes wedi'i ymestyn i 24 Rhagfyr i ddarparu amser ar gyfer datrys yr amodau cynllunio'n gysylltiedig â gwaith priffyrdd yng nghyffordd Ffordd yr Wyddgrug/Lôn Crispin. Cyflwynwyd cynllun maes parcio ond roedd rhagor o drafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch amrywio neu ddileu'r amod yn ymwneud â gwaith priffyrdd yn parhau.<br><br>Amlinellwyd y gwaith a gwblhawyd gan ddefnyddio cyllid cyfalaf CCAUC ac roedd Grŵp Llywio Campws 2025 yn edrych ar sut i ddefnyddio cyllid 2020/21, yn cynnwys cronfeydd heb eu gwario yr oedd CCAUC wedi caniatáu eu cario trosodd o 2019/20. Byddai angen cyflwyno cynigion i CCAUC erbyn 16 Hydref ac roedd yn debygol y byddai tri phrosiect yn cael eu cyflwyno: cwblhau uwchraddio coridor B i gynnwys cyfleusterau arbenigol wedi'u cryfhau'n ddigidol; gwaith gwella i Stryt y Rhaglaw; a chreu canolfan staff i gefnogi strategaeth gweithle'r dyfodol.<br><br>Croesawyd y gwelliannau i Stryt y Rhaglaw ond nodwyd fod angen ymdrin â chyflwr allanol yr adeilad hefyd. Nid oedd y gwaith allanol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cronfeydd cyfalaf CCAUC; fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Cadwraeth a gellid defnyddio'r gyllideb cynnal a chadw cynlluniedig fel bo'n ofynnol.<br><br>Byddai'r Strategaeth Campws 2025 yn cael ei hadolygu, gan ystyried y sefyllfa coronafeirws a oedd wedi cyflwyno heriau, yn ogystal â chyfleoedd newydd ar gyfer | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynllun gosod y Campws. Byddai strategaeth wedi'i diweddaru ac amserlen ddiwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd maes o law.<br><br>Canmolwyd yr hyblygrwydd, cyflawniad a llwyddiannau'n gysylltiedig â Champws 2025 hyd yma. Awgrymwyd fod Grŵp Llywio Campws 2025 yn cofio pwysigrwydd cydnerthedd Technoleg Gwybodaeth a storio data wrth gynllunio ar gyfer gwella'r seilwaith ddigidol addysgu a dysgu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.10** | **Dadansoddiad Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2020, gweithredu mewnol dilynol ac ymatebion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Ymateb i CCAUC ynghylch yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol<br>(ii) Adroddiad a chynlluniau gweithredu'n gysylltiedig â rhaglenni sy'n cyflawni sgôr boddhad cyffredinol o 70% neu lai am ddwy flynedd yn olynol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr adroddiad ac atgoffodd yr aelodau am gefndir yr arolwg, a'r canlyniadau cadarnhaol yn 2020 gyda'r Brifysgol yn perfformi'n uwch na'r meincnod mewn sawl maes. Byddai rhoi'r cynlluniau gweithredu ar waith yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Addysgu, Dysgu ac Ansawdd.<br><br>Canmolwyd y dull cyson o ymdrin â gweithredoedd a'u monitro ar y cyd gyda'r Undeb Myfyrwyr.<br><br>Nodwyd fod y Swyddfa Myfyrwyr wedi lansio adolygiad yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Cyhoeddwyd hyn gan Weinidog Gwladol Prifysgolion y Deyrnas Unedig mewn cynhadledd Prifysgolion y Deyrnas Unedig yn ddiweddar, a nododd mai canolbwynt yr adolygiad oedd lleihau'r baich biwrocrataidd ar brifysgolion.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a'r llythyr a'r cynlluniau gweithredu a anfonwyd i CCAUC. | |
| **20.11** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Proffil drafft ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.11.01 Adroddiad y Cadeirydd**<br>Roedd y Cadeirydd yn gadarnhaol ynghylch y cyflwyniadau a gafwyd ar 1 a 2 Hydref a phapurau cyfarfod y Bwrdd; a diolchodd i bawb fu'n ymwneud â'r rhain.<br><br>Roedd y Grŵp Canllawiau Addysg Uwch yn parhau i gyfarfod yn wythnosol gyda llawer o drafod. Roedd y Cadeirydd yn gweithio gydag Ysgrifennydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru ar ymateb ar y cyd i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru. Roedd y pryderon dechreuol ynghylch y Bil yn cynnwys llywodraethu'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil ei hun, ymchwil, a phwerau cynyddol Gweinidogion Cymru, yn cynnwys y pŵer i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch.<br><br>Roedd rhagor o gyfarfodydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru wedi'u trefnu ar gyfer mis Hydref, yn cynnwys un gyda Gweinidog Addysg Cymru.<br><br>**20.11.02 Proffil Cadeirydd y dyfodol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am y cynllun i ddechrau recriwtio llywodraethwyr newydd yn fuan yn 2021 i lenwi'r seddi gwag cyfredol a rhoi hwb i sgiliau'r Bwrdd yn dilyn ymadawiad aelodau annibynnol y Bwrdd yn ystod 2022 a 2023.<br><br>Trefnwyd cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd a'r holl lywodraethwyr ar gyfer Hydref a Tachwedd i drafod bwriadau aelodau a'u barn ynghylch y Cadeirydd nesaf. Byddai'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n cyfarfod ym mis Rhagfyr i drafod y canlyniadau a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Petai'n angenrheidiol chwilio am Gadeirydd newydd y tu allan i'r Bwrdd, byddai'n rhaid penodi'r unigolyn yn aelod o'r Bwrdd yn gyntaf ac yna'i benodi'n Gadeirydd gan yr aelodau, yn unol â'r Erthyglau.<br><br>CYTUNWYD y dylai profiad mewn amgylchedd rheoleiddiol nodi 'rheoleiddiol neu bolisi cyhoeddus'.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO proffil y Cadeirydd, yn ddarostyngedig i ychwanegu 'polisi cyhoeddus'.<br><br>NODI'R amserlen ar gyfer trafodaethau gyda llywodraethwyr ac adroddiad gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>NODI adroddiad y Cadeirydd. | |
| **20.12** | **Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020<br>(ii) Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr<br>(iii) Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer<br>(iv) Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr<br>(v) Siarter Myfyrwyr 2020/21<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nododd yr Is-Ganghellor fod y Bwrdd Academaidd wedi trafod y sail tystiolaeth i gefnogi ystyriaethau'r Bwrdd Llywodraethwyr a llofnodi'r datganiad sicrwydd ansawdd a safonau. Cyflwynwyd tair gweithdrefn myfyrwyr wedi'u diweddaru yn dilyn eu hadolygu a'u hystyried gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020.<br><br>CYMERADWYO fersiynau diwygiedig y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr, Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer a'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.<br><br>NODI'R Siarter Myfyrwyr 2020/21. | |
| **20.13** | **Risg Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y gofrestr risgiau strategol corfforaethol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw ynghylch barn y Pwyllgor fod y rheolwyr yn cymryd rheoli risgiau o ddifrif. Crybwyllodd yr Is-Ganghellor nad oedd y sefyllfa coronafeirws wedi'i gynnwys yn y gofrestr risg a hyd yn oed ym mis Hydref 2019 nid oedd wedi'i ragweld, ac nid oedd wedi'i ragweld fel risg gan brifysgolion eraill ychwaith. Roedd mesurau lliniaru'n bodoli i reoli effaith y sefyllfa. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.14** | **Adroddiad blynyddol y Bwrdd Llywodraethwyr 2019/20** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2019/20.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R adroddiad fel crynodeb cywir, yn ddarostyngedig i ychwanegu cyfeiriad at Lywodraethwyr wedi'u penodi fel cyfarwyddwyr anweithredol Byrddau'r is-gwmnïau.<br><br>CYMERADWYO cynllun gwaith 2020/21. | |
| **20.15** | **Cofrestr buddiannau aelodau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y gofrestr buddiannau wedi'i diweddaru yn dilyn adolygiad blynyddol y datganiadau gan aelodau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R gofrestr. | |
| **20.16** | **Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Rheoli 2019/20** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a Bwrdd yr Is-Ganghellor yn ystod 2019/20.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.17** | **Cod Ymarfer Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cod Ymarfer Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Byddai sylwadau ynghylch ymarfer y Bwrdd yn erbyn y Cod yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethwyr maes o law, yn dilyn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R Cod. | |
| **20.18** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **20.18.01 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020.<br>(ii) Cod Ymarfer Rheoli Gwrthdrawiadau Buddiannau.<br>(iii) Datganiad Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y dogfennau newydd a adolygwyd ac a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan y Bwrdd i ymdrin â'r 'Ymrwymiadau Gweithredu' yn deillio o Adolygiad Llywodraeth Cymru (Camm). Roedd y Pwyllgor wedi adolygu a diwygio'r sgiliau hanfodol a dymunol | |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n ofynnol i alluogi'r Bwrdd gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â datblygiad y Brifysgol a'r amgylchedd allanol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 22 Medi wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI'R Datganiad Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid.<br><br>CYMERADWYO'R Cod Ymarfer Rheoli Gwrthdrawiadau Buddiannau.<br><br>CYMERADWYO'R sgiliau a phrofiad hanfodol a dymunol diwygiedig ar gyfer aelodau annibynnol y Bwrdd. | |
| | **20.18.02 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2020.<br>(ii) Diweddariad cylch gwaith y Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 18 Medi wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor.<br><br>CYMERADWYO'R diwygiadau i gylch gwaith y Pwyllgor. | |
| | **20.18.03 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2020.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor y cafwyd cyflwyniadau rhagorol gan Gyfarwyddwr OpTic o ran gwaith Glyndwr Innovations Ltd, a Rheolwr Canolfan Xplore! o ran gwaith Gwyddoniaeth Gogledd Cymru. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried Memorandwm Cytundeb drafft rhwng y Brifysgol a Gwyddoniaeth Gogledd Cymru ac wedi gofyn am gynnal rhagor o waith arno i'w adolygu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2020.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 25 Medi wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd. | |

Diwedd